



**Tystysgrif Sylfaen mewn Cymraeg Ail Iaith:  
Defnyddio'r Gymraeg**

**GWRANDO  
Sgriptiau – i'r trefnyddion a thiwtoriaid yn unig**

Arholiad 14 Mehefin 2019

tua 40 munud

## **Rhan 1 – Negeseuon Ffôn**

### **Fersiwn y De**

#### **Neges 1 (llais dyn)**

Mr Philips, pennaeth yr ysgol sy' yma gyda neges i Mr Jones, tad Dafydd Jones blwyddyn 6. Wnewch chi ffonio'r ysgol os gwelwch chi'n dda i ddweud pam dyw Dafydd ddim yn yr ysgol heddi? Dych chi'n gallu dweud pryd bydd e nôl? Diolch yn fawr. O, un peth arall: ydy Dafydd yn mynd ar y daith i Barc y Mynydd yr wythnos nesa? Ffoniwch nôl pan gewch chi gyfle.

#### **Neges 1 (llais merch)**

Helo, Siân Williams yma. Mae neges gyda fi i Ifan Davies. Dw i eisiau dod ar y daith i Langrannog, ond mae cwestiwn neu ddau. Ydy hi'n bosib cael ystafell sengl? Hefyd, dw i eisiau dod â fy nghi... ydy hynny'n iawn? Un peth eto, am faint o'r gloch fydd y cwrs yn gorffen dydd Sul? Diolch yn fawr.

#### **Neges 3 (llais dyn)**

Helo Mair. Mae Mam wedi cwmpo. Mae hi'n iawn, ond bydd rhaid iddi hi aros yn yr ysbyty dros nos. Dw i'n chwarae pêl-droed heno, ac mae Mam eisiau rhai pethau. Wyt ti'n gallu mynd â dillad nos.... a'i ffôn symudol, os gweli di'n dda? Mae hi yn ward 5. O, gwell i ti fynd â'i sbectol iddi hefyd – doedd dim byd gyda hi pan gwmpodd hi. Diolch! Rwyt ti'n chwaer dda!

## **Rhan 1 – Negeseuon Ffôn**

### **Fersiwn y Gogledd**

#### **Neges 1 (llais dyn)**

Mr Philips, pennaeth yr ysgol sy' yma efo neges i Mr Jones, tad Dafydd Jones blwyddyn 6. Wnewch chi ffonio'r ysgol os gwelwch chi'n dda i ddweud pam dydy Dafydd ddim yn yr ysgol heddiw? Dach chi'n medru dweud pryd bydd o nôl? Diolch yn fawr. O, un peth arall: ydy Dafydd yn mynd ar y daith i Barc y Mynydd yr wythnos nesa? Ffoniwch nôl pan gewch chi gyfle.

#### **Neges 1 (llais merch)**

Helo, Siân Williams yma. Mae gen i neges i Ifan Davies. Dw i isio dŵad ar y daith i Langrannog, ond mae gen i gwestiwn neu ddau. Ydy hi'n bosib cael ystafell sengl? Hefyd, dw i isio dŵad â fy nghi... ydy hynny'n iawn? Un peth eto, am faint o'r gloch fydd y cwrs yn gorffen dydd Sul? Diolch yn fawr.

#### **Neges 3 (llais dyn)**

Helo Mair. Mae Mam wedi syrthio. Mae hi'n iawn, ond mi fydd rhaid iddi hi aros yn yr ysbyty dros nos. Dw i'n chwarae pêl-droed heno, ac mae Mam isio rhai pethau. Wyt ti'n medru mynd â dillad nos.... a'i ffôn symudol, os gweli di'n dda? Mae hi yn ward 5. O, gwell i ti fynd â'i sbectol iddi hefyd – doedd gynni hi ddim byd pan wnaeth hi syrthio. Diolch! Rwyt ti'n chwaer dda!

## Rhan 2 – Eitem

### Fersiwn y De

*[Sŵn cerddoriaeth yn tawelu]*

Gruffudd Jones dw i. Falle bod chi wedi clywed fy rhaglen i ar Radio Cymru, os dych chi'n codi'n ddigon cynnar wrth gwrs. Ond dw i wedi dod i sgwrsio yma nawr am fy hobi i, sef casglu pethau.

Dechreuodd y casglu pan o'n i'n blentyn, 'nôl yn y chwedegau. Ces i gardiau pêl-droed gan fy nhad-cu ar fy mhen-blwydd, a dyna ni! Roedd rhaid i fi gasglu *pob* cerdyn wrth gwrs. Roedd fy mam a fy nhad yn meddwl bod rhywbeth yn bod arna i! Ro'n i'n mynd i'r siop bob dydd Sadwrn i edrych am y cardiau oedd ar goll.

Erbyn hyn, dw i'n casglu pethau eraill. Dw i'n casglu matiau cwrw, hen lyfrau, ac mae cardiau post 'da fi o bron pob gwlad yn y byd. Aeth ffrindiau ar saffari i Affrica'n ddiweddar, felly dw i wedi cael cardiau post o Tanzania a Kenya o'r diwedd. Does dim cerdyn 'da fi o Libya, felly os oes rhywun yn mynd yno yn y dyfodol, cofiwch anfon ata i!

Y llynedd dechreuais i gasglu hen boteli. Pan o'n i yn Aberystwyth yn yr haf, digwyddais i ffeindio hen botel wrth fynd â'r ci am dro ar y traeth. Roedd hi'n hen iawn, ac wedi dod yr holl ffordd o Awstralia. Sut cyrhaeddodd hi Aberystwyth? Pwy sy'n gwybod. Erbyn hyn mae tua ugain o boteli gyda fi yn y tŷ.

Mae fy ngwraig i'n cwyno'n ofnadwy am y pethau dw i'n eu casglu ac mae hi'n dweud bydd rhaid i fi ddechrau eu gwerthu nhw. Felly, dw i'n mynd i ddechrau gwneud hynny ar y we. Dw i ddim yn meddwl y bydda i'n cael arian mawr! Mae un botel gyda fi o Ogledd Cymru a'r flwyddyn 1839 arni. Mae hi'n ddiddorol iawn, a basai'n rhaid talu dros ddau gan punt i brynu un arall. Dw i ddim eisiau gwerthu honno.

Felly, dyna fy obsesiwn i. Os dych chi'n casglu rhywbeth, neu eisiau dechrau casglu... cysylltwch; basai'n braf cael sgwrs.

## Rhan 2 – Eitem

### Fersiwn y Gogledd

*[Sŵn cerddoriaeth yn tawelu]*

Gruffudd Jones dw i. Ella bod chi wedi clywed fy rhaglen i ar Radio Cymru, os dach chi'n codi'n ddigon cynnar wrth gwrs. Ond dw i wedi dŵad i sgwrsio yma rŵan am fy hobi i, sef casglu pethau.

Dechreuodd y casglu pan o'n i'n blentyn, 'nôl yn y chwedegau. Mi wnes i gael cardiau pêldroed gan fy nhaid ar fy mhen-blwydd, a dyna ni! Roedd rhaid i mi gasglu *pob* cerdyn wrth gwrs. Roedd fy mam a fy nhad yn meddwl bod rhywbeth yn bod arna i! Ro'n i'n mynd i'r siop bob dydd Sadwrn i edrych am y cardiau oedd ar goll.

Erbyn hyn, dw i'n casglu pethau eraill. Dw i'n casglu matiau cwrw, hen lyfrau, ac mae gen i gardiau post o bron pob gwlad yn y byd. Mi wnaeth ffrindiau fynd ar saffari i Affrica'n ddiweddar, felly dw i wedi cael cardiau post o Tanzania a Kenya o'r diwedd. Does gen i ddim cerdyn o Libya, felly os oes rhywun yn mynd yno yn y dyfodol, cofiwch anfon ata i!

Y llynedd mi wnes i ddechrau casglu hen boteli. Pan o'n i yn Aberystwyth yn yr haf, mi wnes i ddigwydd ffeindio hen botel wrth fynd â'r ci am dro ar y traeth. Roedd hi'n hen iawn, ac wedi dŵad yr holl ffordd o Awstralia. Sut wnaeth hi gyrraedd Aberystwyth? Pwy sy'n gwybod. Erbyn hyn mae gen i tua ugain o boteli yn y tŷ.

Mae fy ngwraig i'n cwyno'n ofnadwy am y pethau dw i'n eu casglu ac mae hi'n dweud bydd rhaid i mi ddechrau eu gwerthu nhw. Felly, dw i'n mynd i ddechrau gwneud hynny ar y we. Dw i ddim yn meddwl y bydda i'n cael pres mawr! Mae gen i un botel o Ogledd Cymru a'r flwyddyn 1839 arni. Mae hi'n ddiddorol iawn, ac mi fasai'n rhaid talu dros ddau gan punt i brynu un arall. Dw i ddim isio gwerthu honno.

Felly, dyna fy obsesiwn i. Os dach chi'n casglu rhywbeth, neu isio dechrau casglu... cysylltwch; mi fasai'n braf cael sgwrs.

### Rhan 3 – Deialog

#### Fersiwn y De

John Evans: Bore da, Coleg Santes Non. Ga'i helpu?  
Manon Davies: O helo. Manon Davies dw i. Dw i'n fyfyrwraig ar gwrs yn y coleg.  
Dw i'n gwneud dosbarth nos Sbaeneg.  
John Evans: Ga'i ofyn beth yw'ch rhif myfyriwr chi, Manon?  
Manon Davies: Wrth gwrs. 23685410.  
John Evans: 236... 85.. 410?  
Manon Davies: Ie, dyna chi.  
John Evans: Sut galla i'ch helpu chi, Manon?  
Manon Davies: Wel, dw i wedi colli fy ymbarél. Roedd hi'n bwrw glaw'n drwm iawn  
yr wythnos o'r blaen ar y ffordd i'r coleg. Ond erbyn naw o'r gloch  
roedd hi'n sych, felly anghofiais i'r ymbarél.  
John Evans: Dych chi'n siŵr fod yr ymbarél gyda chi yn y dosbarth?  
Manon Davies: Ydw, yn ystafell saith.  
John Evans: Dw i'n gweld. Pryd digwyddodd hyn?  
Manon Davies: Wythnos diwetha. Beth oedd y dyddiad dwedwch... y cyntaf... nage'r  
ail o Fehefin.  
John Evans: Oedd hwn yn un drud?  
Manon Davies: Wel, roedd e'n un eitha newydd. Costiodd e rywbeth fel chwe deg  
punt i fi.  
John Evans: Dw i'n gweld. Mae e'n un drud felly.

John Evans: Wnewch chi ddisgrifio'r ymbarél i fi os gwelwch chi'n dda?  
Manon Davies: Un du a gwyn yw e... does dim lliw.  
John Evans: Iawn...  
Manon Davies: Mae logo tîm pêl-droed Abertawe arno.  
John Evans: Iawn... rhywbeth arall?  
Manon Davies: Dyw fy enw i ddim arno, ond mae tipyn bach o ben yr ymbarél wedi  
torri. Basai'n braf cael y peth yn ôl... dw i ddim eisiau prynu un arall.  
John Evans: Does neb wedi dod ag un i mewn i swyddfa'r coleg eto, mae'n flin  
'da fi.  
Manon Davies: Wnewch chi gysylltu â fi os daw e i mewn?  
John Evans: Gwnaf wrth gwrs. Beth yw'r cyfeiriad e-bost?  
Manon Davies: Dyma fe: [manon.davies35@coleg.ac.uk](mailto:manon.davies35@coleg.ac.uk).  
John Evans: [manon.davies35@coleg.ac.uk](mailto:manon.davies35@coleg.ac.uk)?  
Manon Davies: Dyna chi.

John Evans: Gan eich bod chi ar y ffôn, ga'i ofyn cwestiwn neu ddau i chi? Mae'r  
coleg eisiau gwybod barn y myfyrwyr am y cyrsiau. Oes munud 'da  
chi?  
Manon Davies: Oes, wrth gwrs.  
John Evans: Cwrs Saesneg dych chi'n wneud...  
Manon Davies: Nage, *Sbaeneg*. Bob nos Fawrth yn y coleg.  
John Evans: Ga'i ofyn beth sy'n dda am y cwrs... a beth sydd angen ei wella?  
Manon Davies: Mm.. wel mae'r tiwtor yn ardderchog. Dw i'n ei hoffi fe'n fawr.  
John Evans: Iawn...  
Manon Davies: Yr unig beth efalle yw bod angen llyfr cwrs newydd. Mae'r llyfrau'n  
hen erbyn hyn, a basai'n braf cael rhywbeth ffres.  
John Evans: Dim byd arall?

Manon Davies: Dw i ddim yn meddwl.  
 John Evans: Diolch yn fawr. Dw i wedi ysgrifennu'r pwyntiau ar y ffurflen. Gyda llaw, fasech chi'n barod i fod yn rhan o'r grŵp trafod 'barn y myfyriwr'? Mae'r pennaeth yn hoffi cwrdd â myfyrwyr i siarad am bethau, a dych chi'n swnio fel person da i wneud hynny.

Manon Davies: Wel, does dim ots 'da fi.... iawn, baswn.  
 John Evans: Ardderchog. Bydda i'n cysylltu â chi drwy e-bost am hynny. Gobeithio bydd eich ymbarél yn dod i mewn cyn hir!

Manon Davies: Ie wir! Diolch yn fawr.

### Rhan 3 – Deialog

#### Fersiwn y Gogledd

John Evans: Bore da, Coleg Santes Non. Ga'i helpu?  
 Manon Davies: O helo. Manon Davies dw i. Dw i'n fyfyrwraig ar gwrs yn y coleg. Dw i'n gwneud dosbarth nos Sbaeneg.

John Evans: Ga'i ofyn be' ydy'ch rhif myfyriwr chi, Manon?  
 Manon Davies: Wrth gwrs. 23685410.  
 John Evans: 236... 85.. 410?  
 Manon Davies: Ia, dyna chi.  
 John Evans: Sut fedra i'ch helpu chi, Manon?  
 Manon Davies: Wel, dw i wedi colli fy ymbarél. Roedd hi'n bwrw glaw'n drwm iawn yr wythnos o'r blaen ar y ffordd i'r coleg. Ond erbyn naw o'r gloch roedd hi'n sych, felly mi wnes i anghofio'r ymbarél.

John Evans: Dach chi'n siŵr fod yr ymbarél efo chi yn y dosbarth?  
 Manon Davies: Ydw, yn ystafell saith.  
 John Evans: Dw i'n gweld. Pryd wnaeth hyn ddigwydd?  
 Manon Davies: Wythnos diwetha. Be' oedd y dyddiad dudwch... y cyntaf... naci'r ail o Fehefin.

John Evans: Oedd hwn yn un drud?  
 Manon Davies: Wel, roedd o'n un eitha newydd. Mi wnaeth o gostio rhywbeth fel chwe deg punt i mi.

John Evans: Dw i'n gweld. Mae o'n un drud, felly.

John Evans: Wnewch chi ddisgrifio'r ymbarél i mi os gwelwch chi'n dda?  
 Manon Davies: Un du a gwyn ydy o... does 'na ddim lliw.  
 John Evans: Iawn...  
 Manon Davies: Mae logo tîm pêl-droed Abertawe arno.  
 John Evans: Iawn... rhywbeth arall?  
 Manon Davies: Dydy fy enw i ddim arno, ond mae tipyn bach o ben yr ymbarél wedi torri. Mi fasai'n braf cael y peth yn ôl... dw i ddim isio prynu un arall.

John Evans: Does neb wedi dŵad ag un i mewn i swyddfa'r coleg eto, mae'n ddrwg gen i.  
 Manon Davies: Wnewch chi gysylltu efo fi os wneith o ddŵad i mewn?  
 John Evans: Gwnaf wrth gwrs. Be' ydy'r cyfeiriad e-bost?  
 Manon Davies: Dyma fo: [manon.davies35@coleg.ac.uk](mailto:manon.davies35@coleg.ac.uk).  
 John Evans: [manon.davies35@coleg.ac.uk](mailto:manon.davies35@coleg.ac.uk)?  
 Manon Davies: Dyna chi.

John Evans: Gan eich bod chi ar y ffôn, ga'i ofyn cwestiwn neu ddau i chi? Mae'r coleg isio gwybod barn y myfyrwyr am y cyrsiau. Oes gynnoch chi funud?

Manon Davies: Oes, wrth gwrs.

John Evans: Cwrs Saesneg dach chi'n wneud...

Manon Davies: Naci, *Sbaeneg*. Bob nos Fawrth yn y coleg.

John Evans: Ga'i ofyn be' sy'n dda am y cwrs... a be' sy' angen ei wella?

Manon Davies: Mm.. wel mae'r tiwtor yn ardderchog. Dw i'n ei hoffi fo'n fawr.

John Evans: Iawn...

Manon Davies: Yr unig beth ella ydy bod angen llyfr cwrs newydd. Mae'r llyfrau'n hen erbyn hyn, ac mi fasai'n braf cael rhywbeth ffres.

John Evans: Dim byd arall?

Manon Davies: Dw i ddim yn meddwl.

John Evans: Diolch yn fawr. Dw i wedi ysgrifennu'r pwyntiau ar y ffurflen. Gyda llaw, fasech chi'n barod i fod yn rhan o'r grŵp trafod 'barn y myfyriwr'? Mae'r pennaeth yn hoffi cyfarfod myfyrwyr i siarad am bethau, a dach chi'n swnio fel person da i wneud hynny.

Manon Davies: Wel, does dim ots gen i... iawn, baswn.

John Evans: Ardderchog. Mi fydda i'n cysylltu efo chi drwy e-bost am hynny. Gobeithio bydd eich ymbarél yn dŵad i mewn cyn hir!

Manon Davies: Ia wir! Diolch yn fawr.